Adroddiad ar

Ysgol Eifion Wyn

Porthmadog
Gwynedd
LL49 9NU

Dyddiad yr arolygiad: Hydref 2025

gan

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg

a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Ysgol Eifion Wyn

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Eifion Wyn |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Categori ysgol yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg | Categori 3 |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | Dim yn berthnasol |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 212 |
| Disgyblion o oedran ysgol statudol | 164 |
| Nifer yn y dosbarthiadau meithrin | 25 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn Cynradd yw 22.9%) | 10.2% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn Cynradd yw 11.1%) | 9.1% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 58.5% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 9.0% |
| Partner arweiniol ar gyfer Addysg gychwynnol athrawon | Nac ydy |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/01/2024 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 26/05/2017 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 13/10/2025 |

Daw'r data hwn o ddata diweddaraf y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Efallai byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol: Fy Ysgol Leol (gov.wales)

a. Mae'r term 'anghenion dysgu ychwanegol' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA/ADY yr ysgol

## Crynodeb

Mae Ysgol Eifion Wyn yn gymuned gefnogol a chynhwysol sy’n rhoi pwyslais cadarn ar les a chynnydd disgyblion. Mae gan y pennaeth dros dro weledigaeth glir, sy’n sicrhau bod disgyblion yn cael profiadau dysgu priodol mewn amgylcheddau dysgu difyr a gofalgar. Mae hyn yn cyfrannu’n fwriadus at ymddygiad cadarnhaol a pharodrwydd i ddysgu ymhlith disgyblion.

Mae gweledigaeth bwrpasol y pennaeth dros dro, sy’n cynnwys cyfraniadau ystyrlon gan y staff a’r gymuned ehangach, yn cefnogi arferion gwella’r ysgol yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw’r rolau arweinyddiaeth yn sefydledig nac yn gynaliedig ar draws yr ysgol.

Mae athrawon a chymorthyddion yn cydweithio’n frwd. Maent yn fodelau iaith cywrain ac yn canolbwyntio’n effeithiol ar hyrwyddo gofal a dysgu’r disgyblion. Mae hyn yn arwain at gynnydd da ym medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion gan ystyried eu mannau cychwyn. Mae’r staff yn cydweithio’n ddiwyd â rhieni ac asiantaethau allanol ac maent yn adnabod anghenion disgyblion yn dda, sy’n cynnwys disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu sesiynau sy’n ysgogi disgyblion yn effeithiol ac yn eu galluogi i wneud cynnydd priodol. Er hyn, nid yw ansawdd addysgu’r athrawon a’r her maent yn ei rhoi i ddisgyblion yn gyson ar draws yr ysgol. Mae staff yn caniatáu i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol nad ydynt yn mynd i’r afael â’r camau nesaf yn eu dysgu yn bwrpasol, ac mae hyn yn llesteirio eu cynnydd. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn herio disgyblion i wellau eu gwaith yn ddigon gyson. Mae athrawon yn cynllunio gweithgareddau addas i ddisgyblion ddatblygu eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Fodd bynnag, nid yw’r disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso’u medrau ar lefelau dysgu priodol ar draws y cwricwlwm.

Mae staff a disgyblion yn meithrin perthnasoedd gwaith clòs a theyrngar. Maent yn annog disgyblion i gydweithio a rhannu syniadau a theimladau’n llwyddiannus, sy’n datblygu eu parch at bobl eraill yn ddeallus. Mae staff yn sicrhau bod disgyblion yn datblygu medrau personol, cymdeithasol a chreadigol buddiol, sy’n creu ymwybyddiaeth dda o’u cynefin a gwerthfawrogiad diwylliannol cryf.

## Argymhellion

Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol barhau i wella

A1. Sicrhau rolau arweinyddiaeth sefydledig a chynaliedig ar draws yr ysgol

A2. Cysoni’r arferion addysgu effeithiol a darparu adborth buddiol i herio dysgu yr holl ddisgyblion

A3. Darparu gweithgareddau bwriadus sy’n cefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau ar lefelau priodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif werthusiad

Mae‘r ysgol yn gymuned ddysgu hapus a chynhwysol. Mae’r pennaeth dros dro yn gosod cyfeiriad strategol effeithiol ar gyfer yr ysgol ac mae ganddi ddisgwyliadau cadarn ohoni hi ei hun, y staff a’r disgyblion. Mae’n cydweithio’n ddiwyd â’r tîm arwain, y staff a’r llywodraethwyr i sicrhau profiadau dysgu difyr a pherthnasol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn dechrau arddel gweledigaeth glir yn ddeallus. Mae hyn yn seiliedig ar ddarparu profiadau dysgu diddorol i ddisgyblion, a darparu sicrhau lles i holl aelodau’r gymuned ysgol.

Mae arweiniad y pennaeth dros dro yn synhwyrol a chydwybodol. Mae’n sicrhau bod yr holl dîm arwain yn ystyried amrediad eang o dystiolaeth i adnabod blaenoriaethau gwella’r ysgol. Mae’r rhain yn canolbwyntio ar ddatblygu’r ddarpariaeth ymhellach i wella dysgu a lles disgyblion. Mae’r holl staff a’r llywodraethwyr yn cyfrannu’n dda at agweddau penodol o’r gweithdrefnau gwerthuso, ac mae gan y rhan fwyaf ohonynt ddealltwriaeth sicr o’u rolau wrth ganolbwyntio ar ddatblygu’r ddarpariaeth ymhellach. Fodd bynnag, ar hyn o bryd, nid yw’r rolau arweinyddiaeth yn sefydledig nac yn gynaliedig ar draws yr ysgol.

Mae arweinwyr yn hyrwyddo diwylliant cadarnhaol i hybu, datblygu a chefnogi dysgu proffesiynol staff. Maent yn rhannu syniadau ac arddel arferion cadarn a pherthnasol ar y cyd yn fwriadus, Mae hyn yn cyfrannu’n effeithiol at ethos yr ysgol fel sefydliad dysgu. Mae arweinwyr yn cefnogi staff i fyfyrio ac ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar les, medrau a chynnydd disgyblion. Er enghraifft, mae staff yn cynnal trafodaethau rheolaidd i drafod cynefin disgyblion, arferion asesu, ac i dreialu egwyddorion newydd i gefnogi eu dysgu proffesiynol.

Mae arweinwyr yn meithrin perthynas broffesiynol effeithiol â rhieni. Mae’r cydweithio a’r cyfathrebu parhaus yn hybu’r ysgol yn ei chymuned yn llwyddiannus. Mae arweinwyr yn adnabod anghenion y disgyblion a’i chymuned yn dda ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i rieni gefnogi lles a dysgu eu plant. Er enghraifft, mae staff yn cynnal gweithgareddau buddiol gyda rhieni a disgyblion i gyfoethogi yr ymgysylltiad â’r ysgol. Mae’r rhain yn cynnwys cynnal ymweliadau i’r ysgol gan y llyfrgell ac ymarferwyr creadigol, sy’n cefnogi rhieni i ddeall gwaith, lles a chynnydd eu plant.

Ar y cyfan, mae athrawon yn esbonio tasgau’n glir ac yn cefnogi disgyblion i gyfrannu at eu dysgu yn ddeallus. Mae hyn yn ennyn a chynnal diddordeb llawer o ddisgyblion yn eu dysgu ac yn eu galluogi i wneud cynnydd da gan ystyried eu mannau cychwyn. Yn yr arferion gorau, mae athrawon yn sicrhau rhediad da i wersi ac yn defnyddio ystod o adnoddau bwriadus i gefnogi dysgu’r disgyblion. Er hyn, yn rhy aml mae staff yn darparu gweithgareddau dysgu annibynnol nad ydynt yn herio disgyblion i gymhwyso nac i

ddatblygu eu medrau yn ddigon pwrpasol, ac mae hyn yn llesteirio eu cynnydd. O ganlyniad, mae disgwyliadau uchel ac arferion addysgu athrawon yn anghyson, yn enwedig wrth ddarparu her i ddisgyblion er mwyn eu cefnogi i gyflawni'n llwyddiannus. Yn ogystal, nid yw adborth athrawon yn rhoi digon o her i ddisgyblion wella'u gwaith yn gwbl effeithiol.

Mae athrawon ar draws yr ysgol yn fodelau iaith effeithiol ac maent yn gweithredu disgwyliadau cadarn ynglŷn â'r Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn annog disgyblion yn gadarnhaol i siarad Cymraeg a gwneud defnydd pwrpasol o'r iaith fel rhan greiddiol o'u dysgu a'u chwarae. Mae agweddau brwd gan lawer o ddisgyblion at siarad Cymraeg ac maent yn ymdrechu'n rheolaidd i gyfathrebu'n gynyddol ddigymell mewn gwahanol gyd-destunau. O ganlyniad, erbyn diwedd eu hamser yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn hyderus a huawdl i gyfathrebu yn y ddwy iaith.

Mae athrawon yn cynllunio i ddatblygu medrau llythrennedd disgyblion yn effeithiol. Mae medrau darllen ac ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o'r disgyblion ieuengaf yn datblygu'n dda. Mae disgyblion yn defnyddio'u marciau cynnar yn hyderus, ac wrth i'w medrau ddatblygu ymhellach, maent yn dechrau ysgrifennu brawddegau, gan ddangos ymwybyddiaeth fuddiol o sillafu ac atalnodi sylfaenol. Mae llawer o ddisgyblion ar frig yr ysgol yn datblygu medrau darllen ac ysgrifennu cadarn yn y ddwy iaith ac mewn ystod o ffurfiau defnyddiol.

Ar y cyfan, mae athrawon yn cyflwyno gweithgareddau a darparu adnoddau mathemateg defnyddiol. O ganlyniad, mae'r addysgu yn sicrhau bod llawer o ddisgyblion yn datblygu ystod o fedrau rhifedd da. Yn ogystal, mae athrawon yn darparu cyfleoedd diddorol i ddisgyblion ddatblygu eu medrau digidol. Fodd bynnag, nid yw disgyblion yn cael digon o gyfleoedd ymestynnol i gymhwyso'u holl fedrau, ar lefelau dysgu priodol, yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm.

Mae athrawon yn darparu cwricwlwm addas sy'n datblygu dealltwriaeth disgyblion o'u hardal leol a'r byd ehangach yn dda, er enghraifft drwy ddysgu am fynyddoedd a hanes morol yr ardal leol. Er hyn, nid yw'r cynllunio yn datblygu medrau disgyblion yn systematig ac yn raddol yn ystod gweithgareddau dysgu a thros gyfnod yn gwbl effeithiol. Mae athrawon yn cynllunio cyfleoedd synhwyrol i ddisgyblion drafod materion pwysig fel perthnasoedd ac amrywiaeth a phrofiadau pwrpasol i ddatblygu agweddau ysbrydol a moesol cadarnhaol disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos parch tuag at eraill ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o wahanol hunaniaethau yn llwyddiannus ac yn dangos agwedd gadarnhaol at ddysgu. Maent yn cydweithio'n frwdfrydig, ac yn meithrin perthnasoedd teyrngar â staff. Maent yn gwrando'n ofalus ar athrawon ac yn ymfalchïo yn eu cynnydd, yn ymddwyn yn dda ac yn cyfrannu'n ystyrlon i drafodaethau dosbarth.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag ADY yn cael ei chydlynu’n dda. Mae’r ddarpariaeth yn diwallu anghenion y rhan fwyaf o ddisgyblion sydd angen cymorth ychwanegol yn effeithiol. Mae’r staff yn gweithio’n llwyddiannus mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol er mwyn cefnogi disgyblion. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion sydd ag ADY yn gwneud cynnydd da yn unol â’u targedau a’u mannau cychwyn.

Mae staff yn darparu amgylcheddau dysgu difyr i gymell llwyddiannau a brwdfrydedd ymysg disgyblion. Mae hyn yn hyrwyddo lles a chynnydd disgyblion yn dda. Mae ystod synhwyrol o fannau tawel i’w defnyddio gan ddisgyblion, pan fo angen, gan gynnwys ardaloedd ymyrraeth gwerthfawr. Maent yn cael eu defnyddio’n ddoeth gan staff i gefnogi lles disgyblion ac i ymdawelu unigolion mewn achosion o bryder cyn iddynt ailafael yn eu dysgu.

## Gwybodaeth ychwanegol

Nid yw trefniadau’r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn peri pryder

Nid yw trefniadau'r ysgol ar gyfer rheoli safle yn rhoi unrhyw achos i bryderu

Mae gan yr ysgol drefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach

Mae arweinwyr a llywodraethwyr yn rheoli cyllid yr ysgol yn briodol, gan gynnwys defnyddio'r grant datblygu disgyblion.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni/gofalwyr a’r holiadur i ddisgyblion, ac yn ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol / aelodau’r pwyllgor rheoli trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni/gofalwyr i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Atodiad 1: Niferoedd – symiau a chyfrannau

Mae'r adroddiad yn cyfeirio at wahanol symiau a chyfrannau, e.e. *'y rhan fwyaf o ddisgyblion…'* neu *'ychydig iawn o ddisgyblion…'*. Rydym yn defnyddio'r termau hyn i ddisgrifio symiau a chyfrannau fel yr amlinellir yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| bron pob un = | gydag ychydig iawn o eithriadau |
| y rhan fwyaf = | 90% neu fwy |
| llawer = | 70% neu fwy |
| mwyafrif = | dros 60% |
| hanner = | 50% |
| tua hanner = | yn agos at 50% |
| lleiafrif = | islaw 40% |
| ychydig = | islaw 20% |
| ychydig iawn = | llai na 10% |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 15/12/2025